

Gofynnwch am:

Ffôn:

E-Bost:

Ein Cyf:

Eich Cyf:

Dyddiad:

Awst 27 2020

Annwyl Riant / Gofalwr

Mae cynllunio ar gyfer ail agor ysgolion yn ddiogel o'r wythnos nesaf ymlaen wedi cyflymu yn ystod gwyliau'r haf ac yr wyf wrth fy modd y bydd ysgolion Abertawe yn agor y drysau i ddechrau o'r newydd, gan roi diogelwch yn gyntaf.

Pan ysgrifennais atoch ym mis Gorffennaf, addewais roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y trefniadau ar ddechrau'r flwyddyn academiaidd newydd.

Rydym wedi datblygu a diweddarau ein hasesiadau risg a'n cynlluniau ar gyfer sut y bydd ysgolion yn gweithredu i gynnwys cludiant i'r ysgol, ymwelwyr, staff ac asesiadau risg disgyblion hefyd. Mae ein hysgolion wedi cael cymorth i helpu i gynllunio eu hystafelloedd dosbarth a'u coridorau a byddant yn parhau i gael cyngor gan ein swyddogion ar sut i reoli'r amgylchedd dysgu fel bod eich plentyn yn ddiogel yn ystod y cyfnod heriol hwn.

Bydd yr holl blant a phobl ifanc yn cael eu hannog i olchi eu dwylo'n rheolaidd gyda sebon a dŵr yn ystod y dydd. Bydd hylif diheintio hefyd ar gael ar draws pob ysgol.

Mae'r canllawiau Profi, Olrhain a Diogelu, cludiant i'r ysgol a chanllawiau tripiâu ysgol hefyd wedi'u diweddarau. Mae'n bwysig iawn eich bod yn gwybod am drefniadau Profi, Olrhain a Diogelu (POD). Bydd y cyngor yn darparu gwybodaeth ar gyfryngau cymdeithasol yn y diwrnodau nesaf. Bydd canllawiau penodol hefyd ar gael o fewn cynlluniau gweithredu ein hysgolion.

Bydd oriau glanhau ychwanegol yn caniatáu glanhau manau cyswllt aml yn rheolaidd ym mhob ysgol. Yn ogystal â'r glanhau dyddiol trylwyr, bydd proses "glanhau wrth fynd" yn parhau i gael ei defnyddio ym mhob ysgol.

Bydd eich ysgol yn gallu dweud mwy wrthyfch am sut y byddant yn gweithredu ond gwyddom y bydd pob ysgol yn cysylltu â rhieni a gofalwyr yn uniongyrchol i roi gwybod iddynt am y dyddiau y dylai eich plentyn/plant fynychu, ynghyd â threfniadau penodol ar gyfer eu hysgol.

Lle y bo'n bosibl, bydd sesiynau ysgol yn cael eu darparu o fewn oriau gweithredol arferol pob ysgol.

Lle y bo'n bosibl, ac yn seiliedig ar asesiad risg pob ysgol unigol, gall clybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol ailgychwyn.

Bydd prydau ysgol yn ail gychwyn ar Fedi 14. Tan hynny, bydd angen pecyn cinio o'r cartref i bob disgybl am y dyddiau y maent yn mynychu yn ystod pythefnos cyntaf y tymor. Bydd y dewis o daliad BACS neu barseil bwyd wythnosol yn parhau i'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim nes bydd y ffreuturau'n ailagor.

Bydd presenoldeb yn yr ysgol yn orfodol o 14 Medi ond bydd ysgolion a Chyngor Abertawe yn gweithio gyda rhieni a gofalwyr i geisio datrys unrhyw faterion a rhoi sicrwydd lle bo angen. Gofynnir i rieni gysylltu â'u hysgol os na fydd disgybl yn gallu bod yn bresennol am unrhyw reswm dilys. Gall disgyblion ag anghenion meddygol deimlo'n llai hyderus am ddychwelyd i'r ysgol. Bydd cyngor, cymorth ac addasiadau'n bosib os wnewch chi siarad â'ch ysgol.

Os yw eich plentyn mewn ysgol uwchradd, mae'n bosib y bydd angen iddynt wisgo gorchudd wyneb mewn coridorau ac ardaloedd torfol mewn ysgolion. Bydd gyrrwyr a chynorthwyrwyr teithwyr yn gwisgo gorchuddion wyneb ac offer amddiffynnol personol lle bo angen. Ni fydd ymbellhau cymdeithasol rhwng disgyblion ar gerbydau cludiant penodedig i'r ysgol ond bydd angen i ddisgyblion dos 11 mwydd oed wisgo gorchudd wyneb, oni bai eu bod wedi'u hesgusodi rhag gwneud, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Ni ddylid defnyddio bwyd na diod ar wasanaethau cludiant i'r ysgol. Mae canllawiau cludiant ysgol i rieni a disgyblion ar gael gan bob ysgol.

Bydd yn ofynnol i ddisgyblion sy'n teithio ar drafnidiaeth gyhoeddus wisgo gorchuddion wyneb 3 haen os ydynt yn 11 oed neu drosodd gan y byddant yn cymysgu â'r cyhoedd sy'n teithio'n ehangach. Mae cynnal pellter cymdeithasol yn orfodol ar gludiant cyhoeddus.

Os oes gennych gwestiynau neu bryderon, siaradwch â'ch ysgol a byddwn yn helpu ysgolion i ddatrys materion gystal ag y gallwn. Mae llawer o gyngor yn newid ac nid yw bob amser yr un fath yng Nghymru â gweddill y Deyrnas Unedig ond yr ydym yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru i sicrhau ein bod yn dilyn y cyngor cyfredol.

Bydd ysgolion Abertawe yn derbyn cyllid ar gyfer staff ychwanegol i helpu gyda dysgu carlam ar gyfer rhai grwpiau blwyddyn. Os teimlwch y byddai eich plentyn yn elwa o gymorth ychwanegol, dylech drafod eich pryderon gyda'r ysgol.

Bydd dechrau'r flwyddyn academaidd newydd yn wahanol iawn eleni ac mae gan bob un ohonom yr un nod o ddechrau o'r newydd, gyda diogelwch yn flaenoriaeth. Mawr obeithiaf fod dychwelyd i addysg o'r wythnos nesaf ymlaen yn brofiad cadarnhaol i'r plant a'r bobl ifanc yma yn Abertawe.

Yn gywir

N. J. Williams

Nick Williams
Cyfarwyddwr Addysg